**Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**
**Department for Environment, Sustainability and Housing**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf : Your ref
Ein cyf : Our ref
Dyddiad : Date 15 Mehefin 2009

Annwyl Gydweithiwr

**CYFLWYNO FFÏOEDD ADOLYGU MWYNAU**

Rwyf am gael eich barn ar lefel y ffi i'w osod ar gyfer ceisiadau i adolygu mwynau wrth ei gyflwyno ym mis Ebrill 2010.

Cododd y mater hwn yn gyntaf fel rhan o'r pecyn o gynigion ar gyfer newidiadau i'r system ffioedd cynllunio y cynhaliwyd ymgynghoriad arno ym mis Gorffennaf 2008. Cytunodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai mewn egwyddor, ym mis Chwefror 2009, ymysg penderfyniadau eraill am ffioedd, i gyflwyno ffioedd newydd ar gyfer adolygu hen hawliau mwynau o fis Ebrill 2010, yn amodol ar ymgynghori pellach ar y lefel y dylid gosod y ffi arfaethedig.

Mae'r Awdurdodau Cynllunio Mwynau (ACM) yn gyfrifol am adolygu hen hawliau cynllunio mwynau, ac adolygu'r holl hawliau'n gysylltiedig â mwynau yn rheolaidd (pob 15 mlynedd). Mae'r weithdrefn adolygu yn sicrhau bod yr holl hawliau'n gysylltiedig â mwynau yn cael eu gweithredu i safonau amgylcheddol cyfredol.

Roedd y mwyafrif a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyntaf (90%) ar y mater hwn yn cefnogi ffi i gynnwys costau gweinyddol yr adolygiadau hyn. Gan y bydd hyn yn golygu ffi cynllunio newydd, mae'n bwysig bod lefel y ffi yn cael ei ystyried yn ofalus, a bydd yr ail ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle arall i bawb sydd â diddordeb ein hysbysu o'r hyn y maent yn ei ddewis.

Yr hyn sy'n cael ei amlinellu yn yr ymgynghoriad hwn yw bod lefel y ffi newydd yn cael ei osod ar yr un lefel â'r ffi ceisiadau arferol ar gyfer ennill a gweithio mwynau, fel y manylir yn

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 2082 1235
Ffacs • Fax 029 2082 5622

GTN: 1208 1235

Atodiad 3 (rhan o'r Rheoliadau drafft a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 303 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).

Y bwriad wrth gyflwyno ffi adolygu mwynau yw galluogi ACM i dalu eu costau wrth ddarparu gwasanaeth cynllunio mwy amserol ac effeithiol. Mae'r opsiynau sy'n cael eu cyflwyno yn rhan o broses barhaus, fel rhan o becyn cyllid cyffredinol, sy'n ceisio cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth cynllunio tra'n gwella safon y gwasanaeth i ddefnyddwyr y system.

Mae'r ymgynghoriad pellach i'w weld ar "Cynigion ar gyfer Cyflwyno Ffioedd Adolygu Mwynau" yn adran Gynllunio gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar: www.wales.gov.uk/planning. Os ydych am dderbyn copi caled, cysylltwch â:

Lynne Burr
Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu:

E-bost: planning.division@wales.gsi.gov.uk
FFACS: 02920 825622

Dim ond yn y Saesneg y ceir y papur ymgynghori, oherwydd ei natur arbenigol a thechnegol, er bod y llythyr hwn ar gael yn ddwyieithog ar y wefan uchod.

Mae manylion sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gael ar dudalen 2 y papur, ac mae croeso i'ch ymateb, naill ai'n electronig neu trwy lythyr, erbyn 11 Medi 2009.

Yn gywir

ROSEMARY THOMAS
Pennaeth yr Is-adran Gynllunio